Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Ffurflen Gais Cynllun Ffioedd a Mynediad

## Ail Ran: Cynllun Ffioedd a Mynediad Coleg Cambria

| Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Coleg Cambria |
| Hyd y cynllun ffioedd a mynediad | 1 Awst 2025 tan 31 Gorffennaf 2027 |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| **Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu benderfynu ar lefel ffioedd ym mhob lleoliad** (Paragraffau canllaw 85-92) | |
| **Lefel y ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| Myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau, Lefel 4 RhA (Pearson) £2500 fesul blwyddyn academaidd | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Llaneurgain<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |

| | |
|---|---|
| | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Iâl<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Ffordd y Bers<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Llysfasi<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| Myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau, Lefel 4 LIA (Pearson) £5000 fesul blwyddyn academaidd | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Llaneurgain<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| Myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau, Lefel 5 RhA (Pearson) £2500 fesul blwyddyn academaidd | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Llaneurgain<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Iâl<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Ffordd y Bers<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch |
| Myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n | • 2025/26 |

| | | |
|---|---|---|
| parhau, Lefel 5 LIA (Pearson)<br>£5000 fesul blwyddyn academaidd | • Coleg Cambria - safle Llaneurgain<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch | |
| | • 2025/26<br>• Coleg Cambria - safle Llysfasi<br>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch | |

Bydd Coleg Cambria yn cyhoeddi'r datganiad canlynol ar ein gwefan:

Gall ffioedd blynyddol gynyddu yn unol â chwyddiant ar gyfer pob myfyriwr sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2025/26 neu 2026/27.

Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu, nid oes gan y coleg unrhyw gynlluniau i gynyddu ei lefelau ffioedd o fewn y cyfnod hwn.

**Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol**
(Paragraffau canllaw 98-101)

Mae ffioedd ar gael i fyfyrwyr eu gweld ar wefan wefan Coleg Cambria o dan Adran Gostau pob teil gwybodaeth rhaglen.

Gweler yr enghreifftiau isod:

Proffil Cwrs a Ffioedd Cwrs HNC mewn Rheoli Anifeiliaid fel ar 23 04 24.pdf

Proffil Cwrs a Ffioedd Cwrs HND mewn Rheoli Anifeiliaid fel ar 23 04 24.pdf

Mae gwybodaeth am ffioedd ar gyfer ein holl raglenni addysg uwch hefyd ar gael yn y polisi ffioedd dysgu a hefyd yn y cynllun ffioedd a mynediad cyhoeddedig.

Y ffioedd dysgu am gyrsiau gradd israddedig llawn amser sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yw £5000 ar gyfer pob blwyddyn astudio, cyfanswm cyfanredol o £10,000.

| **Adran 2 - Partneriaeth Myfyrwyr**<br>(Paragraffau canllaw 102-105) |
|---|
| Trwy ddarparu addysg uwch, nod y coleg yw darparu llwybrau dilyniant sy'n berthnasol yn alwedigaethol ar gyfer pob lefel o ddysgu mewn cydweithrediad ag anghenion cyflogwyr/sgiliau lleol, gan alluogi'r rhai sydd angen neu sy’n well ganddynt astudio'n lleol i ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy. Mae'r Strategaeth Addysg Uwch hefyd yn cefnogi hyn (gweler isod am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'n Strategaeth Addysg Uwch bresennol ac ar gyfer y dyfodol).<br><br>Yng Ngholeg Cambria rydym yn cymryd camau bwriadol i ymgysylltu â'r holl fyfyrwyr (yn unigol ac ar y cyd) fel partneriaid i sicrhau a gwella eu profiad addysg uwch.<br><br>Mae profiad dysgwyr addysg uwch yn Cambria yn rhagorol, ar y cyfan. Mae'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr yn hapus iawn gyda'r addysgu, dysgu, asesu, cymorth ac adnoddau. Lle mae pryderon wedi'u codi, fe'u trafodir o fewn mecanweithiau Llais Myfyrwyr (gweler isod am ragor o wybodaeth am hyn), wedi'u datrys lle bo hynny'n bosibl a bydd dysgwyr yn cael eu hysbysu o’r canlyniadau. Mae adborth gan Llais Myfyrwyr hefyd yn cael ei rannu'n uniongyrchol â thimau rhaglen a thrwy'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch, lle mae ein dysgwyr yn cael eu gwahodd a'u hannog i fynychu. Mae'r broses hon yn caniatáu cytuno ar gynlluniau gweithredu perthnasol fel y gellir gweithredu gwelliannau (lle bo angen) o fewn prosesau ansawdd.<br><br>Mae'r Cylch Ansawdd Addysg Uwch yn darparu manylion clir a chynlluniau ar gyfer sut bydd myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau'r coleg a sut y gallant gyfrannu drwy gydol blwyddyn academaidd. Mae'r Cylch Ansawdd ar gyfer addysg uwch yn cael ei adolygu a'i ddiwygio (lle bo angen) yn flynyddol a thrwy gytundeb y Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch, lle mae ein dysgwyr addysg uwch yn bresennol.<br><br>Mae gan y coleg Siarter Myfyrwyr ar gyfer dysgwyr Addysg Uwch sy'n amlinellu'n glir yr hawliau a'r cyfrifoldebau sydd ganddynt fel myfyrwyr Coleg Cambria.<br><br>Mae'r Siarter Myfyrwyr yn amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer dysgu, cynnydd ac asesu ynghyd â'r cymorth y bydd y coleg yn ei ddarparu i helpu myfyrwyr i fod yn llwyddiannus yn eu cyflawniadau academaidd, er enghraifft, Tiwtor Personol i fonitro cynnydd unigol drwy'r system Gwerth |

Ychwanegol sydd newydd ei chyflwyno. Mae'r Siarter Myfyrwyr addysg uwch hefyd yn datgan cyfrifoldebau dysgwyr yn glir ynghylch cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael. Pwysleisir hyn yn ystod y cyfnod Ymsefydlu ac mae dysgwyr yn cael eu cefnogi yn ogystal â chael eu herio drwy eu tiwtorialau personol a'r system Gwerth Ychwanegol i wneud cynnydd da yn eu dysgu drwy fanteisio ar y cyfleoedd niferus y mae'r coleg yn eu cynnig, er enghraifft, rhaglenni Cymraeg, cymwysterau llythrennedd digidol, rhifedd a llythrennedd datblygu sgiliau a chymwysterau, cystadlaethau, lleoliadau gwaith a phrosiectau yn y gweithle.

Ceisir barn dysgwyr am eu profiad drwy amryw ddulliau eraill yn ogystal, gan gynnwys:

- Arolygon Gwerthuso Modiwlau - a ddefnyddir gan diwtoriaid modiwl i wella'r profiad addysgu, dysgu a gwella ar lefel y modiwl
- Arolwg myfyrwyr blynyddol
- Sesiynau tiwtorial
- Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Byrddau Astudio ar y Cyd
- Cyfarfodydd Cyswllt rhwng Staff a Myfyrwyr (CCSM)
- Ymweliadau Ymgysylltu â Dysgwyr (YYD)

Trwy'r Llais Myfyrwyr, yr arolwg myfyrwyr blynyddol, gwerthusiadau modiwlau, Cyd-fyrddau Astudio ac aelodaeth o'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch, mae'r coleg yn trafod eu profiadau â'n cymuned myfyrwyr addysg uwch ac yn defnyddio'r canlyniadau i gytuno a gweithredu newidiadau angenrheidiol at ddibenion gwella profiad myfyrwyr ar lefel rhaglen a sefydliadol.

Arolygon Gwerthuso Modiwlau

Mae arolygon gwerthuso modiwlau yn un o'r ffyrdd ffurfiol y byddwn yn casglu adborth myfyrwyr yng Ngholeg Cambria, ac mae hyn yn ein helpu i wella profiad myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr. Cynhelir arolygon gwerthuso modiwlau tuag at ddiwedd pob modiwl a addysgir yn y rhaglen ac maent yn rhoi cyfle i'n cymuned myfyrwyr addysg uwch adfyfyrio ar eu profiadau o'r modiwl a rhoi eu barn ynghylch beth oedd wedi gweithio’n dda a lle y gellid ystyried gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Rydym yn annog myfyrwyr i gwblhau'r arolygon unwaith y byddant ar gael ac yna byddwn yn darparu ymateb manwl i fyfyrwyr, a chamau gweithredu cysylltiedig, ar ôl i'r arolwg gau.

Arolwg Myfyrwyr Blynyddol

Mae boddhad myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol o ran asesu llwyddiant addysg uwch yng Ngholeg Cambria ac felly anogir pob dysgwr addysg uwch i gymryd rhan yn yr arolwg boddhad myfyrwyr blynyddol.

Yn Cambria, rydym yn cymryd camau bwriadol i ymgysylltu â'r holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, fel partneriaid yn ansawdd eu profiad gyda ni. Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae myfyrwyr yn cyfranogi'n dda yn y prosesau ac yn gallu gweld y newidiadau a wneir o ganlyniad. I'r lleiafrif o fyfyrwyr sy'n dewis peidio â chyfranogi, mae hyn yn gyffredinol oherwydd ymrwymiadau gwaith a phersonol. Wrth symud ymlaen, rhoddir rhagor o bwyslais ar gyfraddau ymateb myfyrwyr i'r arolwg blynyddol a rhagor o lefelau bodlonrwydd cyffredinol gan fod hyn yn rhan o'n proses Monitro Perfformiad Allweddol Addysg Uwch (KPI).

<u>Llais Myfyrwyr/Cynrychiolwyr Myfyrwyr</u>
Gofynnir i grwpiau enwebu o leiaf un Cynrychiolydd Myfyrwyr addysg uwch ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Gwahoddir cynrychiolwyr myfyrwyr addysg uwch i'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch, lle maent yn chwarae rhan hanfodol mewn trafodaethau ynghylch y prosesau a'r systemau ar gyfer addysg uwch yn Cambria.

Mae Arweinwyr Rhaglen yn gweithio gyda'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr Addysg Uwch i gasglu barn gan eu Grwpiau cyn cynnal Cyfarfodydd Cyswllt rhwng Staff a Myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn (cynhelir y rhain deirgwaith y flwyddyn ar gyfer rhaglenni Abertawe). Mae'r Cyfarfodydd CCSM wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ar adborth ynghylch gweithgareddau addysgu a dysgu. Nodir canlyniadau'r rhain gan Dimau a rhoddir adborth i'r myfyrwyr ar yr eitemau a godwyd. Mae Timau yn adrodd ar bynciau a chamau gweithredu Cyfarfodydd Cyswllt rhwng Staff a Myfyrwyr (CCSM) drwy eu Hadroddiad Monitro Blynyddol y Rhaglen (PAMR) a'u Cynllun Gwella Parhaus (CGP).

Yn ogystal â'r Timau Rhaglen sy'n cynnal CCSM ddwywaith y flwyddyn, mae'r Rheolwr Cydymffurfiaeth Addysg Uwch yn cynnal Sesiynau 'Galw Heibio' anffurfiol ar draws pob un o'n safleoedd. Mae'r rhain wedi'u cynllunio o amgylch y dyddiau a'r amseroedd ar gyfer pob cwrs ac yn cael eu cynnal yn ystod Semestr 1/2. Mae'r sesiynau galw heibio wedi'u cynllunio i ddarparu lleoliad anffurfiol i fyfyrwyr drafod materion sy'n ymwneud â'u hamgylchedd. Mae'r Rheolwr Cydymffurfiaeth Addysg Uwch yn gweithio ar yr adborth a ddarperir gyda staff traws-golegol perthnasol yn ôl yr angen. Mae adroddiad cryno yn ymwneud â'r pynciau a godwyd gan fyfyrwyr yn y Sesiynau Galw Heibio yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd.
<u>Byrddau Astudio ar y Cyd</u>

Ein nod yw cynnal dau Fwrdd Astudio ar y Cyd fesul rhaglen bob blwyddyn. Mae'r grŵp yn cynnwys gwasanaethau cymorth traws-golegol ynghyd â chynrychiolwyr myfyrwyr addysg uwch, Tîm y Rhaglen a'r Rheolwr Cydymffurfio AU (Cadeirydd). Mae'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn rhoi adborth gan eu grŵp(iau) ac mae fformat y cyfarfodydd yn caniatáu trafodaethau agored yn uniongyrchol gyda'r staff dan sylw, gan ganiatáu i'r myfyrwyr gael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau a wneir o ran eu rhaglenni.

Cyfarfodydd Cyswllt rhwng Staff a Myfyrwyr (CCSM)

Mae'r Cyfarfod Cyswllt rhwng Staff a Myfyrwyr (CCSM) yn darparu fforwm lle gall staff academaidd a phob myfyriwr addysg uwch godi a thrafod materion sy'n ymwneud ag: addysgu a dysgu, asesu a chynnwys a dyluniad cyrsiau/rhaglenni.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod sianel effeithiol ar gyfer cyfathrebu ffurfiol rhwng staff a myfyrwyr, lle gall myfyrwyr adfyfyrio a rhoi adborth ar eu rhaglenni astudio fel rhan o systemau a gweithdrefnau Coleg Cambria ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd profiad y myfyrwyr.

Rhagwelir y bydd dau gyfarfod yn cael eu cynnal bob blwyddyn academaidd o fewn y sesiynau Tiwtorial Personol gorfodol arfaethedig (un fesul Semestr). Gweler y Polisi Tiwtorial Personol ar gyfer Myfyrwyr Addysg Uwch 24 _ 27.pdf. Caiff myfyrwyr eu hysbysu ar ddechrau pob blwyddyn academaidd pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.

Er nad oes agenda benodol ar gyfer hyn, gan y gallai trafodaethau ffurfio'r agenda ar gyfer sgyrsiau yn y cyfarfodydd â myfyrwyr, rhagwelir y bydd y meysydd canlynol yn cael eu trafod:

- Materion addysgu a dysgu
- Asesu ac adborth
- Cymorth academaidd
- Trefnu a chyfathrebu

Bydd deilliannau'r cyfarfodydd hyn yn ffurfio sylfaen y drafodaeth yn ystod cyfarfodydd Arweinydd y Rhaglen Addysg Uwch drwy gydol pob blwyddyn academaidd. Bydd y deilliannau hefyd yn cynorthwyo gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol y Rhaglen a dylent fod yn sail i Gynlluniau Gwella Parhaus.

Ymweliadau Ymgysylltu â Dysgwyr (YYD)

Cyflwynwyd YYD yn 2022/23 fel rhan o ymrwymiad y coleg i wella ein mecanweithiau sicrhau ansawdd yn barhaus. Mae gweledigaeth Coleg Cambria o fod yn 'goleg o ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol' yn golygu ein bod wedi ymrwymo i ddatblygu rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu er mwyn sicrhau deilliannau dysgwyr o'r ansawdd uchaf. Rydym yn cydnabod bod ein dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym wedi ymrwymo i ddeall pob agwedd ar eu profiad coleg yn iawn.

Defnyddir gweithdrefnau fel YYD yn rheolaidd ar draws y sector addysg bellach fel dull allweddol ar gyfer deall profiadau dysgu dysgwyr wrth iddynt symud trwy eu gwersi a'u diwrnod o amgylch y coleg. Fe'u defnyddir i gasglu tystiolaeth am ddysgu, y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud, a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, yn ogystal â mynd i'r afael â materion a godwyd gan gydweithwyr am yr amgylcheddau addysgu, ymddygiad myfyrwyr a thechnoleg. Mae YYD yn rhoi dealltwriaeth fanwl i gydweithwyr a rheolwyr o sut deimlad yw bod yn fyfyriwr sy’n dysgu yn y coleg.

Mae'r YYD yn broses Coleg gyfan sy'n rhoi trosolwg thematig o bynciau penodol. Maent yn brofiadau cadarnhaol sy'n ysgogi'r meddwl y gall timau eu defnyddio i rannu ac adfyfyrio ar ymarfer, ac ar bynciau a nodwyd. Gallant helpu i ddod â safbwyntiau newydd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a all helpu timau i feddwl mewn ffyrdd newydd, am yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut i’w wneud yn well fyth i ddysgwyr. Bwriedir i YYD fod yn ddatblygiadol ac adeiladol yn hytrach na beirniadol, ac maent yn weithgaredd gwella coleg cyfan.

Cynrychiolir dysgwyr addysg uwch yng Ngholeg Cambria hefyd mewn nifer o brosesau ac arferion, a nodir isod:

- Cyfarfodydd Llais Myfyrwyr addysg uwch ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob rhaglen
- Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch - mae’r Cylch Gorchwyl yn cynnwys Cynrychiolaeth Myfyrwyr Addysg Uwch.
- Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn caniatáu dau gynrychiolydd myfyrwyr - gall y rhain fod yn ddysgwyr addysg uwch neu addysg bellach

- Mae dysgwyr addysg uwch presennol yn chwarae rhan hanfodol yn ein digwyddiadau cymeradwyo/dilysu ar gyfer datblygiad ein cwricwlwm addysg uwch yn y dyfodol
- Adborth drwy'r arolwg blynyddol - gwerthuso a’u defnyddio ar gyfer prosesau gwella (os oes angen) drwy fonitro rhaglenni unigol yn flynyddol.

Trwy'r grwpiau a'r prosesau hyn rydym yn gweithio gyda'n cymuned myfyrwyr addysg uwch fel partneriaid i nodi eu blaenoriaethau a ddefnyddir i lywio strategaeth, polisïau a phrosesau a newid/datblygu rhaglenni yn y dyfodol. Mae materion a godir drwy unrhyw un o'r fforymau uchod yn llywio'r broses gynllunio gwelliant parhaus gadarn sydd gan y coleg ar waith.

Dyma gyflwyniad cyntaf cynllun ffioedd mynediad i Goleg Cambria. Rydym yn ceisio barn ein cymuned gyfan o fyfyrwyr addysg uwch trwy nifer o fforymau gwahanol. Rydym yn bwriadu rhannu'r Cynllun hwn gyda myfyrwyr drwy ein Llwyfannau Dysgu Rhithwir, Cyfarfodydd Cyswllt rhwng Staff a Myfyrwyr, mecanweithiau Llais Myfyrwyr a hefyd drwy'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch.

**Adran 3 - Grwpiau tangynrychioledig**
(Paragraffau canllaw 106-116)

Mae’r grwpiau tangynrychioledig y bydd Coleg Cambria yn eu cefnogi drwy fuddsoddi yn ein cynllun ffioedd a mynediad i wella cyfle cyfartal yng Nghymru fel a ganlyn:

- Myfyrwyr o bob oed o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)
- Myfyrwyr o bob oed o gwintel isaf MALIC
- Pobl o bob oed o ardaloedd cyfranogiad isel mewn AU yn y DU
- Myfyrwyr o bob oed a fyddai'n elwa o astudio'n rhan-amser
- Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gan Goleg Cambria hanes hir o gyflawniad wrth ehangu mynediad i grwpiau tangynrychioledig. Mae'n greiddiol i'n gwerthoedd ac yn amlwg iawn yn ein Strategaeth Addysg Uwch bresennol ac ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i strategaethau ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch yn ogystal â sicrhau llwyddiant myfyrwyr sydd, yn ei dro, yn gwella'r cyfleoedd dilyniant i'n cymuned myfyrwyr addysg uwch.

Trwy ein rhaglenni addysg uwch, partneriaeth ag Ymestyn yn Ehangach, ein Strategaeth Addysg Uwch a'n Cynllun Lles Cyhoeddus Addysg Uwch, rydym yn cyflawni'r blaenoriaethau strategol yr ydym wedi'u gosod ar gyfer Addysg Uwch. Trwy weithredu'r cynllun blaenorol / darpar gynllun rydym yn:

- Ehangu mynediad i addysg uwch ar gyfer grwpiau tangynrychioledig
- Parhau i werthuso setiau data amrywiol ein myfyrwyr a'r grwpiau categori tangynrychioledig y maent yn perthyn iddynt, fel y gellir gwahaniaethu rhwng cynlluniau'r dyfodol i gefnogi'r dysgwyr hyn a'u hanghenion i gael mynediad, llwyddo a symud ymlaen trwy eu taith addysg uwch
- Parhau i archwilio unrhyw fylchau yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr o grwpiau tangynrychioledig drwy brosesau ansawdd monitro haws a hygyrch, bydd unrhyw fylchau sydd wedi'u dadansoddi yn cael eu cynnwys o fewn Cynlluniau Gwella Parhaus yn y dyfodol ar lefel rhaglen a strategol
- Gweithio mewn cydweithrediad agos ag Ymestyn yn Ehangach a darparwyr addysg uwch eraill i wella mynediad, llwyddiant a dilyniant ar gyfer astudio ar lefel prifysgol ar gyfer ein grwpiau myfyrwyr tangynrychioledig
- Anelu at barhau i gynyddu cynnydd i ddysgu uwch ein dysgwyr Lefel 3
- Cefnogi'r economi leol drwy ddatblygu'r gweithlu lleol gyda sgiliau lefel uwch
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio rhywfaint neu'r cyfan o'u rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Cyfrannu at gynyddu canran y boblogaeth weithiol leol sydd â chymwysterau lefel uwch.
- Adolygu ein cynnig o raglenni yn barhaus i sicrhau bod mynediad i bawb yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyson.

Mae Cambria yn bwriadu gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar y gweithgareddau eang canlynol:

1. Parhau i gynllunio a gweithredu ystod ehangach o raglenni addysg uwch sy'n berthnasol yn alwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau uwch a gradd, gyda chyfleoedd dilyniant lle bo hynny'n berthnasol
2. Dylunio modelau cyflwyno sy'n galluogi myfyrwyr i astudio wrth weithio
3. Targedu hyrwyddo cyfleoedd addysg uwch i ddysgwyr o ardaloedd cyfranogiad isel a grwpiau tangynrychioledig drwy gydweithio ag Ymestyn yn Ehangach a darparwyr addysg uwch eraill
4. Codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd dilyniant a'r cymorth sydd ar gael i'n myfyrwyr Lefel 3 drwy gydweithrediad traws-golegol wedi'i dargedu
5. Paratoi myfyrwyr ar gyfer pontio o addysg bellach i astudio addysg uwch, yn enwedig oedolion sydd wedi cael bwlch astudio, gan ddefnyddio'r timau arbenigol sydd ar gael yng Ngholeg Cambria
6. Darparu cymorth astudio ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch drwy ein tîm cymorth llyfrgell tra medrus er mwyn hwyluso llwyddiant ar eu rhaglen
7. Darparu profiad myfyrwyr o ansawdd uchel drwy wella sgiliau addysgu a dysgu, gan gynnwys y Gymraeg

8. Arfogi myfyrwyr â sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd profiad gwaith
9. Parhau i wella ein systemau adrodd data fel ein bod mewn gwell sefyllfa i werthuso anghenion mynediad, llwyddiant a dilyniant penodol ein cymuned myfyrwyr tangynrychioledig.

Yn ogystal â'r uchod, mae gan y coleg gynlluniau gweithredu cadarn ar waith i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer ein darpariaeth Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith. Gweler isod;

Cynlluniau Gweithredu 2023-24 (Saesneg).pdf

Cynlluniau Gweithredu Prentisiaethau 2023-24 (Saesneg).pdf

Yn sefydliadol rydym wedi gosod cyllidebau i ddatblygu a chefnogi myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn ein darpariaeth addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Mae'r meysydd pwnc penodol wedi'u rhestru isod:

- Iechyd a Gofal
- Gofal Plant
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Chwaraeon
- Astudiaethau'r Tir
- Busnes
- Y Diwydiannau Creadigol
- Gwaith Adeiladu

O ganlyniad i'n Hadolygiad Ansawdd Porth diweddaraf, mae cynlluniau ar y gweill erbyn hyn i greu cynllun gweithredu penodol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer ein darpariaeth addysg uwch wrth symud ymlaen.

Mae'r coleg yn parhau i weithio'n agos gydag Ymestyn yn Ehangach, rydym yn gweithio fel sefydliad ac ar y cyd â darparwyr eraill i gefnogi ehangu mynediad i grwpiau tangynrychioledig ar draws ein rhanbarth. Bydd cydweithredu arfaethedig drwy'r bartneriaeth hon yn cefnogi gweithgarwch yn y dyfodol sy'n ceisio cau unrhyw fylchau mewn mynediad, llwyddiant a dilyniant ar gyfer grwpiau penodol sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch ar hyn o bryd, gan gysylltu â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd angen datblygu nodau prosiect penodol ar gyfer y gwaith hwn, gan ddefnyddio tystiolaeth megis mapio allgymorth rhanbarthol, ochr yn ochr â data ledled y wlad ar fynediad i addysg uwch, llwyddiant a dilyniant.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Cambria yn datgan, yn Amcan 5: Sicrhau Ecwiti, ein bod wedi cynnwys camau penodol o ran "*Darparu cymorth a phrofiad dysgu priodol ar gyfer llwybrau nad ydynt yn rhai Addysg Bellach*". Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

| | |
|---|---|
| mewnol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a bydd yn cynnwys targedau penodol ar archwilio, ymchwilio a chynnig cyngor ac arweiniad i staff a myfyrwyr addysg uwch.<br><br>Fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol a gyda chefnogaeth gan brosiect Llywodraeth Cymru, fel coleg rydym yn gwneud cwricwlwm gwrth-hiliol yn rhan hanfodol o’n gwaith. Rydym wedi ymgymryd â phrosiect sydd wedi dod â Thiwtoriaid a Hyfforddwyr Cynnydd i mewn i ddysgu o adnoddau a fydd yn cael eu datblygu'n hyfforddiant mewnol ar wneud gwrth-hiliaeth yn rhan annatod o’n cwricwlwm pellach. | |
| **Adran 4 – Amcanion yn y modd y maent yn ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo Addysg Uwch**<br><br>(Paragraffau canllaw 117-135) | |
| **Adran 4.1 - Cydraddoldeb Cyfle** | |
| Amcan 1 | Cynyddu recriwtio ein grwpiau o fyfyrwyr tangynrychioledig, gan gynnwys y rhai o grwpiau tangynrychioledig |
| Amcan 2 | Lleihau unrhyw fylchau dargadw rhwng gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau tangynrychioledig |
| Amcan 3 | Lleihau unrhyw fylchau o ran cwblhau a chyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, tra hefyd yn darparu cymorth i bob myfyriwr gwblhau eu rhaglenni astudio, gan gynnwys y rhai o grwpiau tangynrychioledig |
| Amcan 4 | Cynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach ac yn astudio Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn meysydd blaenoriaeth pwnc, fel y nodwyd yn ein Cynlluniau Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg. |
| **Adran 4.2 - Hyrwyddo Addysg Uwch** | |

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Adolygu ein portffolio addysg uwch i ddarparu cyfleoedd ehangach i wella cyflogadwyedd myfyrwyr |
| Amcan 2 | Cynyddu cyhoeddusrwydd a hyrwyddo ein cymuned myfyrwyr addysg bellach i godi dyheadau i astudio ar lefel uwch |
| Amcan 3 | Cynyddu'r hyrwyddiad a'r cyhoeddusrwydd ar gyfer llwybrau llawn amser a rhan-amse |

Mae Cambria yn bwriadu mesur cynnydd yn erbyn amcanion ein cynllun drwy nifer o fecanweithiau, sydd wedi'u rhestru isod:

- Trwy PAMRs, Adroddiadau Hunanases (*SARs*), Cynlluniau Gwella Parhaus (*CIPs*) ac Adolygiadau Effaith (fel yr amlygwyd uchod).
- Trwy weithgor, a fydd yn cael ei sefydlu cyn cyflwyno'r cynllun. Bydd staff a rheolwyr allweddol yn gweithio i werthuso cynnydd yn erbyn y cynllun yn ystod cyfarfodydd hanner tymor.
- Trwy Ddangosfwrdd* cynllun ffioedd a mynediad*.

*Mae dangosfyrddau wedi cael eu datblygu gan y Tîm Adrodd Ansawdd ar gyfer defnydd yr holl staff a rheolwyr yn y coleg ac maent yn hygyrch i bawb trwy blatfform ar-lein mewnol.

Mae dangosfyrddau wedi'u hymgorffori mewn prosesau ansawdd, gwerthuso a mesurau ac maent ar gael ar hyn o bryd ar gyfer llawer o feysydd ar draws y Coleg, gan gynnwys Addysg Uwch, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cynhwysiant a Derbyn. Mae dangosfyrddau wedi'u teilwra i bob defnyddiwr staff ac yn caniatáu i gasglu, dadansoddi a gwerthuso data gael eu cwblhau yn ôl yr angen. Mae data ar gael trwy adroddiadau drilio i lawr a ffeithluniau, sy'n gwneud data'n fwy hygyrch ac yn haws i'w ddehongli.

Mae cynnwys ein dangosfwrdd Addysg Uwch yn ymdrin â Ceisiadau, Cofrestriadau, Cadw/parhad a Llwyddiant, ymhlith llawer o fesurau gweithredol a strategol eraill y mae'r Coleg yn eu gosod fel disgwyliadau.

Mae'r Dangosfwrdd Amrywiaeth, Cynhwysiant, Nodwedd a Chydraddoldeb (DICE) yn caniatáu i staff a rheolwyr asesu data o safbwynt cydraddoldeb. Enghraifft o hyn yw cael mynediad at ddata llwyddiant, gellir dadansoddi rhagor ar hyn wedyn i asesu llwyddiant dysgwyr o wahanol gefndiroedd, h.y. oedran, rhywedd, amddifadedd, anabledd, ethnigrwydd, y Gymraeg.

Rydym yn bwriadu datblygu Dangosfwrdd data Ffioedd a Mynediad, a fydd yn caniatáu i ddadansoddiad o'r holl dargedau a bennir yn y Cynllun hwn gael ei werthuso'n barhaus trwy gydol pob blwyddyn academaidd.

Trwy'r Dangosfwrdd cynllun ffioedd a mynediad, byddwn yn ymdrechu i feincnodi ein data mewnol yn erbyn unrhyw ddata cenedlaethol y gallwn gael gafael arno. Mae'n bwysig i ni, fel darparwr Addysg Uwch yn y Coleg, ein bod yn mesur ein hunain yn erbyn darparwyr tebyg, gyda chyflwyniad CTER, byddai'n ddefnyddiol gweld mesurau cenedlaethol yn cynnwys darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach fel grŵp adrodd.

Trwy sicrhau ansawdd ein prifysgolion partner/byrddau asesu cyrff dyfarnu, rheoliadau academaidd ac Arholwyr Allanol, mae’r coleg yn hyderus bod prosesau asesu a dosbarthu terfynol yn gadarn, yn ddibynadwy, yn deg ac yn dryloyw.

Mae adroddiadau Arholwyr Allanol blynyddol a gafwyd yn dangos bod safonau cenedlaethol yn cael eu cynnal ar draws rhaglenni addysg uwch a ddarperir yn Cambria. Rhennir yr adroddiadau a dderbynnir drwy'r Grŵp Llywio Addysg Uwch/Mynediad i Addysg Uwch a llwyfannau dysgu rhithwir gyda staff a myfyrwyr.

Cwblheir arbenigedd allanol ar gyfer rheoli sicrwydd ansawdd mewn cydweithrediad â'n prifysgolion partner/cyrff dyfarnu trwy weithredu eu rheoliadau academaidd a gweithio mewn partneriaeth â'n tiwtoriaid cyswllt ac Arholwyr Allanol. Mae'r broses hunanasesu flynyddol yng Ngholeg Cambria yn gadarn ac fe'i cymeradwyir trwy banel o arbenigwyr, gan gynnwys un o lywodraethwyr y coleg. Mae llywodraethwr cyswllt yn cael ei bennu ar gyfer addysg uwch ac mae'n her allweddol drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae gan ein llywodraethwr cyswllt presennol ar gyfer addysg uwch flynyddoedd lawer o brofiad o reoli yn y sector addysg uwch.

Mae'r Cylch Ansawdd Addysg Uwch wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei adolygu'n flynyddol drwy'r Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad i Addysg Uwch. Mae'r ddogfen yn amlinellu prosesau ar gyfer pob blwyddyn academaidd a llinellau cyfrifoldeb clir, tra hefyd yn tynnu sylw at brosesau a gweithdrefnau perthnasol y mae pob elfen yn cysylltu â nhw o fewn prosesau monitro blynyddol addysg uwch.

Trwy brosesau Adrodd Monitro Blynyddol y Rhaglen a Hunanasesu a thrwy drafodaethau mewn Byrddau Astudio ar y Cyd, rydym yn adolygu ein harferion craidd ar gyfer cynnal safonau. Mae canlyniadau'r prosesau sicrhau ansawdd hyn yn ffurfio'r Cynllun Gwella Parhaus ar gyfer Addysg Uwch, fel y gellir cynllunio a monitro gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Trwy fonitro rhaglenni addysg uwch a chynllunio gwelliant parhaus, rydym yn adolygu ein Harferion Craidd yn systematig trwy broses gylchol.  Ynghyd â Byrddau Astudio ar y Cyd, mae prosesau monitro mewnol hefyd yn gyfrwng ar gyfer adolygu arferion craidd yn barhaus. Mae canlyniadau'r prosesau hyn yn cael eu bwydo i CIPs i ysgogi llwyddiant a gwella pellach ar gyfer ein rhaglenni addysg uwch.

## Awdurdodi cais y cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC (sy’n ofynnol er mwyn ei gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffioedd a mynediad, mae’r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen;

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau sy'n cael eu gwneud yn y cais hwn;

iii. yn cadarnhau y bu ymgynghori priodol gyda'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad ac mewn darparwyr eraill lle mae addysg yn cael ei darparu ar ei ran;

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata dilysadwy;

v. yn cadarnhau:

a. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, mwy diweddar i lywio asesiad CCAUC

vi. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r cymhwysedd sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynir ar gynllun ffioedd a mynediadau a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir ar, neu ar ran, y sefydliad;

vii. yn deall bod yn rhaid iddo ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau i CCAUC a/neu asiant CCAUC a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran;

viii. yn deall y gall CCAUC gynnal adolygiad sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, a bod yn rhaid i'w gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC at y diben hwn;

ix. yn cadarnhau bod yr <u>holl</u> addysg a ddarperir gan, neu ar ei ran, beth bynnag fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth wedi'i hystyried yn y cynllun ffioedd a chais mynediad;

x. yn cadarnhau bod y sefydliad mewn risg isel o fethu ar sail ariannol dros y tymor canolig i'r tymor hir;

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yn perthyn i’r un cwmni a/neu'r unigolyn a baratôdd y cyfrifon;

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch;

xiii. yn deall bod yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y cynllun ffioedd a mynediad, fel y cymeradwyir gan CCAUC;

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd israddedig llawn amser i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch a pheidio â lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal sy’n bwriadu cefnogi grwpiau tangynrychioledeg <u>yn unig</u> mewn addysg uwch;

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol i'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach sy'n cyd-fynd â'i Strategaeth Ymestyn yn Ehangach a'i Gynllun Gweithredu y cytunwyd arnynt;

xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gellir gwneud copi o'r cynllun ffioedd a mynediad yn hygyrch i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat;

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn cyfeirio'i fyfyrwyr yn glir at brosesau cwynion CCAUC;

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau tangynrychioledeg astudio ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig;

xx. yn ystyried sut y gall buddsoddiad gefnogi myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig Covid-19 lle nad ydynt eisoes yn cael eu nodi fel grwpiau tangynrychioledeg; ac

xxi. yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig mewn perthynas â diogelu dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo lles ei fyfyrwyr a'i staff.

| **Cyflwyno Cais Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC**[1] | |
|---|---|
| Dyddiad y cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu: | yn y Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau ar 13 Mai 2024 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 13 Mai 2024 (gellir cwblhau caniatâd pellach unwaith y bydd y Cynllun wedi'i gwblhau) |
| **Cyflwyniad ffioedd a mynediad terfynol unwaith y bydd CCAUC wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion pellach (lle bo hynny'n berthnasol)** | |
| Dyddiad y cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu: | 29 Gorffennaf 2024 *(yn ychwanegol at y cytundeb mewn egwyddor a ddarparwyd gan y Bwrdd ar 17 Mehefin 2024)* |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |

[1]Rhaid i gynllun ffioedd mynediad a gyhoeddir ar wefannau'r sefydliad gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan CCAUC yn unig.

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 29 Gorffennaf 2024 |